**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Craffu**

**DYDDIAD:** **4 Mawrth 2024**

**TEITL YR ADRODDIAD:** **Diweddariad Chwythu'r Chwiban**

**LLEOLIAD:** **Hybrid**

**PWRPAS YR ADRODDIAD: Er gwybodaeth**

**CEFNDIR:**
Darperir adroddiadau i'r Pwyllgor drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau a'r trefniadau ynghylch chwythu'r chwiban o fewn y Cyngor.

Mae hyfforddiant e-ddysgu yn orfodol i'r holl staff a chynghorwyr. Bydd angen ailhyfforddi bob tair blynedd. Mae'n ofynnol i aelodau newydd o staff ymgymryd â'r hyfforddiant.

Mae hyfforddiant gorfodol yn ei le. Bydd hyfforddiant pellach ar gyfer rheolwyr, staff ac aelodau yn cael eu trefnu yn ôl yr angen.

Trafododd y Pwyllgor y mater hwn ddiwethaf ym mis Hydref 2019: Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Hydref 2019.
Cafodd y polisi ei adolygu ddiwethaf yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 22 Mawrth 2023 a gan Cabinet ar y 4ydd Ebrill 2023 Cofnodion Cabinet 04.04.2023

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**
1) Mae'r Grŵp Arweiniol o bryd i'w gilydd yn monitro'r nifer sy'n cwblhau'r modiwl e-ddysgu. Mae hyn yn dangos fod y nifer sy'n cwblhau'r hyfforddiant yn foddhaol.
2) Ers mis Hydref 2019 hyd y dyddiad presennol mae 2495 o swyddogion wedi cwblhau'r hyfforddiant.
3) Adolygwyd y Polisi Chwythu'r Chwiban (Atodiad A) ym mis Mawrth 2023 gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, Report for DESH Scrutiny – 17th December 2008 (ceredigion.gov.uk)Chofnod 4 – Cofnodion Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Mawrth 2023 a Gan Cabinet ym mis Ebrill 2023, Cofnod 191 – Cofnodion Cabinet 04.04.2023.
   Mae dolen i'r polisi a ddiwygiwyd yma: Polisïau a Gweithdrefnau / Cerinet (Ceredigion.gov.uk)

Roedd y prif newidiadau yn cynnwys:
- Ychwanegiad - Mae Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) wedi nodi: lle bo'n briodol, y dylid ystyried y polisi hwn yn gyntaf pan fyddwch yn codi pryder mewn perthynas â

defnydd yr Awdurdod o bwerau ymchwilio, ac unrhyw ddatgeliadau ynghylch unrhyw faterion sy'n dod o fewn goruchwyliaeth y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ar dudalen 4

- Ychwanegiad - Gellir rhoi gwybod am bryderon diogelu yn y lle cyntaf fel pryderon Chwythu'r Chwiban. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau priodol, gellir cyfeirio'r rhain at weithdrefn Strategaeth Diogelu neu Bryderon Proffesiynol y Cyngor. Cynghorir gweithwyr i gyfeirio at y 'Polisi a'r Canllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl' i gael rhagor o wybodaeth am roi gwybod am bryderon diogelu ar dudalen 4
- Ychwanegiad - Efallai y bydd amgylchiadau lle gellir trosglwyddo gwybodaeth a ddatgelir mewn perthynas â materion diogelu i Swyddogion priodol (e.e. Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) neu awdurdodau rheoleiddio ar dudalen 5.

4) Cyfeiriadau Chwythu'r Chwiban

Rhwng Ebrill 2019 a Rhagfyr 2023 gwnaethpwyd 6 cyfeiriad datgelu Chwythu'r Chwiban i'r Swyddog Monitro.

Ar 20/12/23:

Roedd 5 wedi'u cwblhau,

O'r rhain: doedd dim ymchwiliad ffurfiol. Fe ddatryswyd rhain trwy:

- weithredoedd mewnol
- hyfforddiant
- prosesau ymchwilio eraill

Roedd 1 yn ddibynnol ar ymchwiliad parhaus.

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor:**

Gwneir gwelliannau tymor byr yn ôl yr angen

**Cydweithio:**

Caiff Undebau Llafur eu hymgynghori'r rheolaidd ar y polisi

**Cynnwys:**

**Atal:**

Er mwyn sicrhau bod mynediad i'r weithdrefn ar gael i bob gweithiwr, ac i hwyluso tryloywder a bod yn agored o fewn y sefydliad

**Integreiddio:**

Mae'r diwygiadau'n cymryd i ystyriaeth deddfwriaeth ddiweddar

**ARGYMHELLIAD(AU):**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD(AU):**

Sicrhau cryfhau a gwella'r drefn Chwythu'r Chwiban

**ATODIADAU:**

dim

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Swyddogaeth:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu (Swyddog Monitro) |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 06.02.2024 |
| **Acronymau:** | Amherthnasol |